NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Tofacitinib ar gyfer arthritis gwynegol cymedrol i ddifrifol

11 Hydref 2017

Mae tofacitinib (Xeljanz), a gymerir ar y cyd â chyffur a elwir yn methotrexate, ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer arthritis gwynegol gweithredol difrifol mewn oedolion o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- nid yw'r clefyd wedi ymateb yn ddigon da i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) confensiynol neu
- nid yw'r clefyd wedi ymateb yn ddigon da i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) gan gynnwys o leiaf 1 DMARD biolegol, neu ni all y person eu cael, ac ni allant gael rituximab.

Gellir defnyddio tofacitinib ar ei ben ei hun os na all pobl gymryd methotrexate.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 6 mis os nad yw'r arthritis gwynegol yn ymateb yn ddigon da.

Os nad ydych yn gymwys i gael tofacitinib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Arthritis Action, 020 3781 7120
- Arthritis and Musculoskeletal Alliance (ARMA), 0203 856 1978
- National Rheumatoid Arthritis Society (NRAS), 0800 298 7650
- Versus Arthritis, 0800 520 0520

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2700-5

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights